Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**

# Cynnwys

1. Cefndir ........ 3

2. Cyflwyniad ........ 5

3. Cynnydd gyda chyflawni ein hamcanion yn ystod 2018/19 ........ 5

4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu ........ 9

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) ........ 9

6. Trefniadau caffael ........ 9

7. Gwybodaeth am gyflogaeth ........ 9

8. Cyflogeion ar 31 Mawrth 2019 yn ôl rhyw a graddfa cyflog ........ 12

9. Ceisiadau am swyddi ........ 13

12. Cyflogeion a adawodd y cyngor yn 2018/19 ........ 16

13. Ymgysylltu ac ymgynghori ........ 17

14. Cysylltu â ni ........ 17

**1. Cefndir**

Fel awdurdod, ein nod yw deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau'n atal cyfle cyfartal y mae pobl yn eu hwynebu fel bod gan bawb gyfle teg i gyflawni'u potensial. Rydym yn amcanu at sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Rydym yn amcanu at ddatblygu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ein helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasoedd da.

Ein nod ni yw prif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol ac yn allanol.

Rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2016, aethom ati i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ac amcanion ar gyfer 2016-2020. Er mwyn gwneud hyn, adolygwyd ein hamcanion blaenorol, ein cyflawniadau a beth roeddem wedi'i ddysgu drwy ein gwaith a'n hymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol.

Buom yn ymgynghori â'r cyhoedd a grwpiau cydraddoldeb ynghylch yr amcanion hyn a rhannodd 101 o bobl eu safbwyntiau. Mae manylion yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yma.

Cafodd ein CCS ei gymeradwyo gan ein Cabinet ar 15 Mawrth 2016 gyda'r saith amcan strategol canlynol ar gyfer 2016-2020:

| **Amcan** | **Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni/ gefnogi?** |
|---|---|
| **Amcan 1:**<br>**Cludiant** | Byddwn yn helpu i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch, cost effeithiol, hollgynhwysol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| **Amcan 2:**<br>**Meithrin cysylltiadau da a chodi ymwybyddiaeth** | Byddwn yn hybu cymdeithas decach yn bositif yn y fwrdeistref sirol drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau a wynebir gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chynyddu ein hymdrechion i helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel troseddau casineb a cham-drin domestig.<br><br>Byddwn hefyd yn gwella'r ffyrdd rydym yn cyfathrebu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r rhai sydd â nodwedd warchodedig. |
| **Amcan 3:**<br>**Ein rôl fel cyflogwr** | Byddwn yn adeiladu ar ein hymdrechion i fod yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol gan hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yn ein gweithlu, gan alluogi pob cyflogai sydd â |

| | |
|---|---|
| | nodwedd warchodedig i gyflawni ei botensial. |
| **Amcan 4:**<br>**Iechyd meddwl** | Bydd ein gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn adeiladu ar ei waith partneriaeth gyda'r trydydd sector (gwirfoddol) er mwyn darparu cefnogaeth a gwasanaethau iechyd meddwl. |
| **Amcan 5:**<br>**Plant** | Byddwn yn hybu'n bositif ac yn cefnogi cyflawniad emosiynol ac addysgol plant yn y fwrdeistref sirol ac yn rhoi sylw i'r problemau mae plant yn eu hwynebu, fel bwlio. |
| **Amcan 6:**<br>**Hamdden, celfyddydau a diwylliant** | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i helpu i hybu mynediad teg a chyfartal at gyfranogiad mewn gwasanaethau chwaraeon a hamdden, yn ogystal ag yn y celfyddydau a gwasanaethau diwylliannol, i holl aelodau'r gymuned. |
| **Amcan 7:**<br>**Data** | Byddwn yn parhau i ddatblygu systemau i gasglu, cynnull, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb am ein defnyddwyr gwasanaeth a'n cyflogeion, yn ogystal â gwella ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. |

Yn dilyn hyn, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o reolwyr allweddol ar draws yr awdurdod i ddatblygu'r 47 cam gweithredu sy'n dod o dan y saith amcan yma.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd a grwpiau cydraddoldeb am y camau gweithredu hyn a rhannodd 317 o gyfranogwyr eu safbwyntiau gyda ni drwy gyfrwng arolygon a thrwy naw gweithdy ymgysylltu. Mae manylion yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yma.

Yn dilyn hyn, datblygwyd ein cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet ar 14 Gorffennaf 2016. Derbyniwyd ein trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cynllun gweithredu gan y pwyllgor hwn ar 04 Gorffennaf 2019 a gellir ei weld yma.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni yn eu meysydd gwasanaethu. Bydd y tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu (sy'n gyfrifol am yr agenda cydraddoldeb) yn sicrhau bod cynnydd a diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Cydraddoldeb Cabinet y cyngor a bod adborth yn cael ei roi i bartneriaid, grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

## 2. Cyflwyniad

Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cynllun blynyddol strategol.
Er mwyn paratoi'r adroddiad hwn, casglwyd data o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer ein cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2019. Mae data a ddarparwyd bryd hynny gan feysydd gwasanaeth a phartneriaid yn darparu ffordd barhaus o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n camau gweithredu.

## 3. Cynnydd gyda chyflawni ein hamcanion yn ystod 2018/19

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol o dan ein saith amcan fel a ganlyn:

### Cludiant

- Cafodd 50 cyffordd eu trin mewn lleoliadau amrywiol ledled y fwrdeistref a gosodwyd cyrbiau is yn eu lle.

- Mae swyddogion yr Adran Drwyddedu wedi cyfarfod trigolion Pen-y-bont ar Ogwr sydd angen Cerbydau Mynediad Cadair Olwyn, i weld pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r ddarpariaeth i deithwyr mewn cadeiriau olwyn. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae rhestr o dacsis hygyrch ar gael ar y wefan.

### Meithrin cysylltiadau da

- Yn ystod 2018/19, mae sesiynau ymwybyddiaeth rheolaidd o Droseddau Casineb wedi cael eu cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynhaliwyd cyfanswm o 69 o sesiynau gan ymgysylltu â 1392 o bobl. Yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cynhaliwyd digwyddiadau ar y cyd gan Heddlu De Cymru a CBSP yn y Swyddfeydd Dinesig, Porthcawl, Maesteg, Caerau a gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr.

- Mae CBSP wedi hybu ymgyrchoedd ar Twitter, Facebook, Instagram a gwefan CBSP, gan gynnwys y canlynol:
    - Diwrnod Cofio'r Holocost;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia;
    - Dydd Gŵyl Dewi;
    - Cymunedau cyfeillgar i ddementia;
    - Wythnos Prentisiaethau, Urdd 2018;
    - Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol;
    - Camu Allan dros Strôc;
    - Gwobr Dinasyddion y Maer 2018;
    - Digwyddiadau Olympaidd Mini;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia 2018;
    - Wythnos Gofalwyr;
    - Ras yr Iaith – ras dros yr Iaith Gymraeg;
    - Eid al-Adha;
    - Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn;
    - Diwrnod Iechyd Meddwl 2018;
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb;
    - Diwrnod y Cofio;
    - 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf;

- Ymgyrch rhuban gwyn;
- Diwrnod hawliau gofalwyr;
- Diwrnod Mudwyr Rhyngwladol;
- Diwrnod Santes Dwynwen;
- Mis Hanes LGBTQ.

- Fis Tachwedd 2018, cadarnhaodd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn mabwysiadu'r Diffiniad Llawn o Wrthsemitiaeth fel y Cynigiwyd gan y Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA).

- Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2019 oedd 'rhwygwyd o gartref' a'r nod oedd annog y rhai a oedd yn bresennol i adlewyrchu ar sut mae cael eich gorfodi i golli lle diogel i'w alw'n gartref yn rhan o'r trawma mae unrhyw un sy'n profi erlid a hil-laddiad yn ei ddioddef. Nododd CBSP y diwrnod gyda digwyddiad cyhoeddus teimladwy a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr yn Theatr Sony yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl y cyngor fel cyflogwr**

- Darparwyd hyfforddiant Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ar gyfer staff a enwyd ym mhob ardal fusnes. Cafodd pum sesiwn eu cynnal yn 2017/18 a dau sesiwn pellach, gyda 18 o gyfranogwyr, yn 2018/19. Mae cyfanswm o 64 o staff (pawb a nodwyd fel y grŵp targed o gyflogeion ar gyfer hyfforddiant AEG) wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn nawr.

- Rydym yn parhau i hybu'r gwasanaeth Gofal yn Gyntaf i staff drwy gyfrwng cynllun cyfathrebu parhaus a chylchlythyr chwarterol Bridgenders. Rydym yn mesur y defnydd o Ofal yn Gyntaf yn chwarterol.

- Rydym wedi dechrau cynnig clinigau archwilio iechyd misol i staff, ac mae'r rhain yn cynnwys monitro pwysedd gwaed a cholesterol a mesuriadau bodimetrig.

**Iechyd meddwl**

- Ers i Lywodraeth Cymru wneud cyhoeddiad mewn perthynas â newid ffiniau'r Bwrdd Iechyd, mae'r cyngor wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid Iechyd yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae trafodaethau parhaus mewn perthynas â'r modelau gwasanaeth a fydd yn cael eu cyflwyno yn y Fwrdeistref.

- Mae cynnydd wedi'i wneud drwy wasanaeth cydlynu'r gymuned leol, y ddarpariaeth integredig sy'n cael ei darparu drwy ARC gyda gwasanaethau allgymorth yn cael eu datblygu yn y Fwrdeistref. Hefyd, darparu gwybodaeth a chyngor drwy hybiau cymunedol, cysylltiadau â chlystyrau meddygon teulu, menter 'Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr' a phartneriaethau allweddol eraill sy'n gweithio tuag at yr agenda atal a lles.

- Mae'r tîm Grwpiau Agored i Niwed wedi hyfforddi dau hyfforddi'r hyfforddwyr mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl Ieuenctid – mae hyn yn cael ei ehangu i bob ysgol ac mae'r rhai sy'n ymgymryd â'r cwrs deuddydd yn adrodd ar effaith bositif ymhlith staff yn ogystal â chefnogaeth i ddisgyblion. Mae hwn yn gynllun parhaus i sicrhau y bydd gan bob ysgol o leiaf un aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant iechyd meddwl erbyn mis Rhagfyr 2019.

**Plant**

- Gan ddefnyddio adborth gan ysgolion a staff cefnogi Cymorth Cynnar, cynhaliodd y gyfarwyddiaeth Addysg a Chefnogi Teuluoedd ymarfer i gaffael sefydliad i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig ag LGBT+. Stonewall oedd y sefydliad llwyddiannus ac mae wedi cyflwyno 3 rownd o'i raglen Hyfforddi'r Hyfforddwr i ysgolion a staff cefnogi. Mynychodd cyfanswm o 65 aelod o staff o sefydliadau fel Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, timau Cymorth Cynnar, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Gofalwyr Ifanc, y tîm Grwpiau Agored i Niwed, Mentor Bro Ogwr, Ôl-16 (Ôl-ofal) a phrosiectau Ysbrydoli 2.

- Mae Addysg a Chefnogi Teuluoedd wedi sefydlu Tîm Grwpiau Agored i Niwed sy'n darparu cefnogaeth integredig i amrywiaeth o ddisgyblion sydd wedi'u datgan gan Estyn fel rhai agored i niwed ac â photensial i fod yn agored i niwed:
    - Addysgu gartref dewisol
    - Plant sy'n derbyn gofal
    - Plant sy'n colli addysg
    - Saesneg fel iaith ychwanegol
    - Sipsi a Theithwyr Roma
    - Disgyblion sydd wedi'u heithrio yn barhaol

- Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth ddiogelu i ysgolion. Mae'r tîm Grwpiau Agored i Niwed hefyd yn hwyluso fforymau tymhorol ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal Dynodedig ac Arweinwyr Diogelu lle mae siaradwyr allanol a hyfforddiant a diweddariadau mewnol yn cael eu darparu.

- Mae Stonewall yn cefnogi atal bwlio LGBTQ+ mewn ysgolion ac mae rhwydwaith ysgolion LGBTQ+ yn cael ei ddatblygu gyda'r timau cynhwysiant ac ysgolion a Grwpiau Agored i Niwed.

**Hamdden, celfyddydau a diwylliant**

- Mae'r Gist Gymunedol wedi cefnogi 56 o brosiectau cymunedol gan gynnwys buddsoddiad o £5556 mewn trechu anghydraddoldeb. Mae partneriaeth gyda'r Siarter Ieuenctid ar gyfer diwylliant chwaraeon a'r celfyddydau wedi hyfforddi 15 o bobl fel arweinwyr hyfforddi cymdeithasol i dargedu anfantais. Mynychodd grŵp pellach o 13 o bobl Get on Track mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Fonesig Kelly Holmes.

- Mae'r rhaglenni Egnïol am Oes wedi cefnogi 9769 o ymweliadau ar draws 12 safle gan ddarparu mynediad am ddim ac mewn cymunedau wedi'u targedu.

- Mae cyfleoedd hamdden a diwylliannol yn cyfrannu at ddatblygu cymunedau cyfeillgar i oedran. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i berfformio'n dda gyda'r fenter nofio am ddim dros 60 oed genedlaethol wedi cael 77011 o ymweliadau. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn rheolaidd er mwyn cyflwyno'r rhaglen Park Lives gan gefnogi oedolion hŷn i fod yn egnïol yn yr awyr agored.

- 1494 o bobl wedi ymgysylltu â rhaglen gweithgarwch awyr agored Park Lives.

- Mae CBSP wedi cyflwyno rhaglen lwyddiannus o weithgareddau cefnogol i ddementia gyda phartneriaid, gan gynnwys BAVO, clefyd Alzheimer, Halo ac Awen. Mae'r cyfleoedd wedi cynnwys nofio cyfeillgar i ddementia, côr gofalwyr ac ysgolion cefnogol i ddementia.

- Mae 40 o ysgolion wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant parth actif teuluoedd i gefnogi gweithgarwch teuluoedd.

- Mae Awen yn parhau i weithredu cynllun Hynt ac yn cynnig prisiau is am wasanaethau a gweithgareddau.

- Yn ystod 2018-2019, Awen oedd y gweithredwr llyfrgell cyntaf yng Nghymru i gael gwared ar ddirwyon llyfrgell, er mwyn annog mwy o ddefnydd.

**Data**

- Mae monitro cydraddoldeb yn parhau'n rhan o bob ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth cydraddoldeb a gasglwyd i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ochr yn ochr ag adroddiad yr ymgynghoriad.

- Yn ystod 2018/19, buom yn ymgysylltu â mwy na 15,000 o drigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy gyfrwng amrywiaeth o ymgynghoriadau a sesiynau ymgysylltu.

- Mae manylion yr ymgynghoriadau caeedig, y canlyniadau a'r camau nesaf yn cael eu rhannu ar dudalen ymgynghoriadau'r wefan. Ar gyfer aelodau'r Panel Dinasyddion, rydym yn llunio cylchlythyr blynyddol y Panel Dinasyddion, "Chi'n dweud ... Ni'n gwneud ...".

- O ganlyniad i'r broses gwynion ffurfiol, mae deg o ffurflenni monitro cydraddoldeb wedi cael eu prosesu.

- Rydym yn parhau i gasglu data cydraddoldeb ar gyfer pob cyflogai newydd ac rydym yn parhau i hybu system hunan-wasanaeth y cyflogeion i annog staff i gwblhau/diweddaru eu data personol.

- Rhwng mis Chwefror 2018 a mis Ionawr 2019, lluniodd y cyngor chwe AEGau a 33 sgriniad AEG. Mae'r gweithgarwch cysylltiedig â nifer a natur yr AEGau a

gynhaliwyd gan y cyngor yn parhau i gael ei adrodd yn ôl i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn flynyddol.

## 4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cynhaliodd y cyngor 12 ymgynghoriad cyhoeddus:

| |
|---|
| ADY Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd |
| Darpariaeth ADY Ysgol Gynradd Betws |
| Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 |
| Ymgynghoriad y Polisi Trwyddedu (Deddf Gamblo 2005) |
| Cais am gyflwyno darpar safleoedd (paratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol) |
| Y potensial i ad-drefnu'r ddarpariaeth ôl-16 |
| Ymgynghoriad bysiau â chymorth 2019 i 2020 |
| Cynnig i Ymgynghori ar y Strategaeth Eiddo Gwag 2019-2023 |
| Pecynnau cefnogi prifysgolion ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal |
| Ymgynghoriad cyhoeddus gofod cyhoeddus: gorchymyn gwarchodaeth rheoli cŵn |

Yn ychwanegol at yr ymarferion ymgynghori uchod, cynhaliwyd dau arolwg ymgysylltu gennym gydag aelodau ein Panel Dinasyddion. Roedd yr arolwg cyntaf yn rhoi sylw i ddysgu cymunedol oedolion, datblygiadau digidol, cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, ailgylchu a gwastraff, darpariaeth iechyd meddwl a gwasanaethau cwsmeriaid ac roedd yr ail arolwg yn efelychu arolwg Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau)

Yn ystod mis Mehefin 2018, cwblhaodd 18 o gyflogeion weithdai AEG ac mae cyfanswm o 217 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu hyd yma.

## 6. Trefniadau caffael

Mae meysydd gwasanaethu'n gweithio gyda'r tîm caffael i sicrhau bod AEGau yn cael eu hintegreiddio yn y broses gaffael. Mae rheolau'r gweithdrefnau contract yn cynnwys, fel isafswm, gymalau sy'n cynnwys cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, caethwasiaeth fodern a deddfwriaeth cyflogaeth. Mae materion cydraddoldeb yn gwbl integredig yn y broses gaffael, o gyn-cymhwysedd i ddyfarnu contract. Mae hysbysiad cydymffurfio'r iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys ym mhob contract.

## 7. Gwybodaeth am gyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2019, roedd 5740 o gyflogeion yn y cyngor, gan gynnwys y rhai'n cael eu cyflogi mewn ysgolion. Mae'r cyfrif pennau a'r proffiliau oedran yn darparu dadansoddiad o'r cyflogeion hyn. Fodd bynnag, mae'r manylion am y nodweddion gwarchodedig sy'n

weddill yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol gan gyflogeion. Felly mae'r ffigurau canran yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael fel canran o'r gweithlu cyfan.

| | CBSP – fel ar 31.03.2019 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cyfanswm cyflogeion | 1165 | 4575 | **5740** | |
| **O blith yr uchod:** | | | | |
| Llawn amser | 899 | 1566 | **2465** | **42.94%** |
| Rhan amser | 266 | 3009 | **3275** | **57.06%** |
| | | | | |
| **Anabledd wedi'i ddatgan** | 47 | 91 | **138** | **2.40%** |
| | | | | |
| **Cyfrifoldeb gofalwr wedi'i ddatgan** | 30 | 249 | **279** | **4.86%** |
| | | | | |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Gwyn | 980 | 3909 | 4889 | 85.17% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 4 | 26 | 30 | 0.52% |
| Du neu Ddu Prydeinig | 2 | 5 | 7 | 0.12% |
| Hil Gymysg | 2 | 16 | 18 | 0.31% |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 2 | 17 | 19 | 0.33% |
| Heb ddatgan | 175 | 602 | 777 | 13.54% |
| | | | | |
| **Siarad Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 147 | 640 | 787 | 13.71% |
| 'Cymharol dda' | 26 | 100 | 126 | 2.20% |
| 'Rhugl' | 42 | 216 | 258 | 4.49% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Darllen Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 148 | 644 | 792 | 13.80% |
| 'Cymharol dda' | 37 | 121 | 158 | 2.75% |
| 'Rhugl' | 42 | 215 | 257 | 4.48% |
| | | | | |
| **Ysgrifennu Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 111 | 533 | 644 | 11.22% |
| 'Cymharol dda' | 29 | 111 | 140 | 2.44% |
| 'Rhugl' | 38 | 197 | 235 | 4.09% |
| | | | | |
| **Rhywioldeb** | | | | |
| Heterorywiol | 561 | 2146 | 2707 | 47.16% |
| Deurywiol | 3 | 13 | 16 | 0.28% |
| Dyn hoyw | 21 | | 21 | 0.37% |
| Menyw hoyw / lesbiad | | 10 | 10 | 0.17% |
| Trawsrywiol | 0 | 0 | 0 | 0.00% |
| Arall | 3 | 7 | 10 | 0.17% |
| Gwell gen i beidio dweud | 29 | 93 | 122 | 2.13% |
| | | | | |
| **Proffil Oedran** | | | | |
| 16-19 | 12 | 9 | 21 | 0.37% |
| 20-25 | 55 | 180 | 235 | 4.09% |
| 26-30 | 100 | 392 | 492 | 8.57% |
| 31 - 35 | 115 | 508 | 623 | 10.85% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 36 - 40 | 124 | 555 | 679 | 11.83% |
| 41 - 45 | 134 | 647 | 781 | 13.61% |
| 46 - 50 | 172 | 742 | 914 | 15.92% |
| 51 - 55 | 183 | 652 | 835 | 14.55% |
| 56 - 60 | 160 | 533 | 693 | 12.07% |
| 61 - 65 | 73 | 266 | 339 | 5.91% |
| 66 + | 37 | 91 | 128 | 2.23% |
| **Cyfanswm** | **1165** | **4575** | **5740** | |

**8. Cyflogeion ar 31 Mawrth 2019 yn ôl rhyw a graddfa cyflog**

Cafodd ein strwythur tâl a graddfa ei weithredu ar 1 Medi 2013 ac mae mecanwaith cadarn a chlir yn ei le ar gyfer gwerthuso graddfeydd cymharol swyddi. Mae hyn yn seiliedig ar swyddogaethau a chyfrifoldebau yn hytrach nag unrhyw ffactorau unigol perthnasol i'r cyflogai.

| Graddfa | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| JE graddfeydd 1 – 8 (£16,394 - £24,657) | 549 | 3468 | **4017** |
| JE graddfeydd 9 – 10 (£26,470 - £30,756) | 103 | 224 | **327** |
| JE graddfeydd 11 – 16 (£32,233 - £50,323) | 145 | 284 | **429** |
| Prif Swyddogion (£53,537 - £136,400) | 6 | 5 | **11** |
| Soulbury a swyddogion ieuenctid (£20,456 - £63,089) | 6 | 38 | **44** |
| Athrawon, penaethiaid, dirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol (£17,208 - £106,709) | 314 | 1011 | **1325** |

**DS** Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar nifer y swyddi oriau contract ar draws yr awdurdod. Os oes gan gyflogai fwy nag un swydd, bydd yn cael ei gyfrif am bob swydd sydd ganddo. O'r herwydd, ni fydd y ffigurau uchod yn cyd-fynd â chyfansiymau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar gyfrif pennau.

**9. Ceisiadau am swyddi**

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cawsom 6,495 o geisiadau am swyddi drwy'r system recriwtio Adnoddau Dynol gan 3,518 o unigolion, yn cynnwys ceisiadau mewnol ac allanol. Nid yw'r data'n cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion.

Mewn rhai achosion, ni wnaeth yr ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth ar gyfer pob nodwedd warchodedig. Felly mae'r ffigurau canran yn nodi lefel y diffyg ymateb fel 'Heb Ddatgan' ar gyfer pob nodwedd benodol.

| Disgrifiad | Nifer yr Ymgeiswyr | % |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr Gwrywaidd | 1003 | 28.51% |
| Ymgeiswyr Benywaidd | 2511 | 71.38% |
| Heb ddatgan | 4 | 0.11% |
| | | |
| **Anabledd wedi'i ddatgan:** | 218 | 6.20% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 841 | 23.91% |
| 26 – 35 | 1052 | 29.90% |
| 36 – 45 | 763 | 21.69% |
| 46 – 55 | 594 | 16.88% |
| 56 – 65 | 246 | 6.99% |
| 66+ | 7 | 0.20% |
| Heb ddatgan | 15 | 0.43% |
| | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | |
| Heterorywiol | 3132 | 89.03% |
| Deurywiol | 40 | 1.14% |
| Dyn Hoyw | 31 | 0.88% |
| Menyw Hoyw / Lesbiad | 27 | 0.77% |
| Gwell gen i beidio dweud | 102 | 2.90% |
| Arall | 21 | 0.60% |
| Heb Ddatgan | 165 | 4.69% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 1196 | 34.00% |
| Byd gyda Phartner | 611 | 17.37% |
| Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil | 5 | 0.14% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 205 | 5.83% |
| Sengl | 1334 | 37.92% |
| Gweddw | 24 | 0.68% |
| Gwell gen i beidio dweud | 40 | 1.14% |
| Heb Ddatgan | 103 | 2.93% |
| | | |
| **Hil** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwyn | 3279 | 93.21% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 41 | 1.17% |
| Du/Du Prydeinig | 38 | 1.08% |
| Tsieineaidd | 7 | 0.20% |
| Hil Gymysg | 26 | 0.74% |
| Gwell gen i beidio dweud | 31 | 0.88% |
| Grŵp Ethnig Arall | 16 | 0.45% |
| Anhysbys / heb ddatgan | 80 | 2.27% |

**10. Hyfforddiant staff**

Mae ein trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant staff corfforaethol wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- **Hyfforddiant ar ôl mynediad** – mae cyflogeion yn gofyn am hyfforddiant penodol i wasanaeth drwy gyfrwng y polisi hyfforddiant ar ôl mynediad. Dim ond ceisiadau y cytunir iddynt gan reolwyr llinell sy'n cael eu hanfon ymlaen i'r adran adnoddau dynol ac felly nid ydym yn gallu canfod unrhyw rai a gafodd eu gwrthod o bosib.

- Nid ydym yn gallu datgelu gwybodaeth berthnasol i'r rhai sy'n cael hyfforddiant ar ôl mynediad oherwydd, er bod data'n cael eu casglu, mae nifer y cyflogeion a faint o ddata sydd ar gael yn rhy fach i ni eu dehongli mewn ffordd ystyrlon.

- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb** – mae mwyafrif ein hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i dargedu at gyflogeion yn seiliedig ar natur y rôl a'r cyfrifoldebau. O'r herwydd, nid oes unrhyw geisiadau am yr hyfforddiant hwn wedi'u gwrthod.

- **E-ddysgu** – mae mwyafrif yr hyfforddiant corfforaethol yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng e-ddysgu a gall cyflogeion gael mynediad ato yn uniongyrchol ym mwyafrif yr achosion.

Mae'r tabl isod yn datgan nodweddion gwarchodedig y cyflogeion hynny a ddefnyddiodd y dull hyfforddi hwn rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

| **Disgrifiad** | **Wedi cwblhau e-ddysgu** | |
|---|---|---|
| Gwryw | 608 | 19.5% |
| Benyw | 2506 | 80.5% |
| | | |
| **Anabledd wedi'i ddatgan:** | 98 | 3.1% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 164 | 5.3% |
| 26 – 35 | 622 | 20.0% |

| | | |
|---|---|---|
| 36 – 45 | 822 | 26.4% |
| 46 – 55 | 962 | 30.9% |
| 56 – 65 | 514 | 16.5% |
| 66+ | 30 | 1.0% |
| | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | |
| Heterorywiol | 1890 | 60.7% |
| Deurywiol | 13 | 0.4% |
| Dyn Hoyw | 18 | 0.6% |
| Menyw Hoyw / Lesbiad | 8 | 0.3% |
| Gwell gen i beidio dweud | 89 | 2.9% |
| Arall | 7 | 0.2% |
| Heb Ddatgan | 1089 | 35.0% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 1509 | 48.5% |
| Byw gyda Phartner | 272 | 8.7% |
| Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil | 7 | 0.2% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 272 | 8.7% |
| Sengl | 704 | 22.6% |
| Gweddw | 18 | 0.6% |
| Gwell gen i beidio dweud | 25 | 0.8% |
| Heb Ddatgan | 307 | 9.9% |
| | | |
| **Hil** | | |
| Gwyn | 2803 | 90.0% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 18 | 0.6% |
| Du/Du Prydeinig | 5 | 0.2% |
| Tsieineaidd | 3 | 0.1% |
| Hil Gymysg | 11 | 0.4% |
| Gwell gen i beidio dweud | 140 | 4.5% |
| Grŵp Ethnig Arall | 6 | 0.2% |
| Anhysbys / heb ddatgan | 128 | 4.1% |

Nid oes unrhyw gofnodion yn yr adran Adnoddau Dynol am wrthod mynediad i hyfforddiant i gyflogeion fel yr amlinellir uchod, ac ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn am y mater hwn.

## 11. Gwrandawiadau cwynion cyflogaeth a disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 2018-19

Mae hyn yn cynnwys cyflogeion sy'n rhan o weithdrefnau cwynion cyflogaeth fel achwynwyr, fel cyflogeion y gwnaed cwyn yn eu herbyn neu gyflogeion sy'n destun gweithred ddisgyblu. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, nid ydym yn gallu datgelu'r wybodaeth hon. Ym mhob categori, mae nifer y cyflogeion a maint y data'n rhy fach i ni eu dehongli mewn ffordd ystyrlon.

## 12. Cyflogeion a adawodd y cyngor yn 2018/19

Mae'r data canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig yr 886 o unigolion a adawodd gyflogaeth y cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Mae'r data am nodweddion gwarchodedig (ar wahân i rywedd ac oedran) yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddatgelwyd yn wirfoddol gan y cyflogeion. Mae'r dadansoddiad o'r canrannau'n seiliedig ar gyfanswm y rhai wedi gadael.

| Disgrifiad | Nifer wedi gadael | % wedi gadael |
|---|---|---|
| Cyflogai Gwrywaidd | 203 | 22.91% |
| Cyflogai Benywaidd | 683 | 77.09% |
| | | |
| **Anabledd wedi'i ddatgan:** | 31 | 3.50% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 113 | 12.75% |
| 26 – 35 | 161 | 18.17% |
| 36 – 45 | 193 | 21.78% |
| 46 – 55 | 203 | 22.91% |
| 56 – 65 | 193 | 21.78% |
| 66+ | 23 | 2.60% |
| | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | |
| Heterorywiol | 477 | 53.84% |
| Deurywiol | 8 | 0.90% |
| Dyn Hoyw | 4 | 0.45% |
| Menyw Hoyw/Lesbiad | 3 | 0.34% |
| Gwell gen i beidio dweud | 21 | 2.37% |
| Arall | 2 | 0.23% |
| Heb ddatgan | 371 | 41.87% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 366 | 41.31% |
| Byw gyda Phartner | 76 | 8.58% |
| Partneriaeth o'r Un Rhyw neu Sifil | 0 | 0.00% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 76 | 8.58% |
| Sengl | 233 | 26.30% |
| Gweddw | 5 | 0.56% |
| Gwell gen i beidio dweud | 7 | 0.79% |
| Heb ddatgan | 123 | 13.88% |
| | | |
| **Hil** | | |
| Gwyn | 772 | 87.13% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 5 | 0.56% |
| Du/Du Prydeinig | 3 | 0.34% |
| Hil Gymysg | 6 | 0.68% |
| Gwell gen i beidio dweud | 0 | 0.00% |
| Grŵp Ethnig Arall | 3 | 0.34% |

| | | |
|---|---|---|
| Heb ddatgan | 97 | 10.95% |

**13. Ymgysylltu ac ymgynghori**

Rydym yn ceisio cynnwys safbwyntiau grwpiau cynrychioliadol yn ein proses gynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn datblygu gwasanaethau hygyrch ar gyfer y cyhoedd a'n cyflogeion.

Mae ymgysylltu'n rhan bwysig o'n gwaith felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried a bod holl ddimensiynau cydraddoldeb yn cael sylw.

Bydd cyflogeion a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o gyflawni, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ar ganlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu i ddangos yn glir sut mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**14. Cysylltu â ni**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein CCS neu gael copi o'r cynllun mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni:

Ar e-bost: talktous@bridgend.gov.uk
Dros y ffôn: 01656 643643
Dros ffôn testun: 18001 01656 643643
Ar ffacs: 01656 668126
Yn ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar agor rhwng 8am a 5.30pm, Llun – Gwener
Dyma ein gweithdrefn gwynion.